**Renewable Energy Systems Limited**
Cedar House, Greenwood Close, Cardiff Gate Business Park
Cardiff CF23 8RD, United Kingdom
www.res-group.com

Rheolwr Achosion Cynllunio
Yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol
1 Victoria Street
London
SW1 0ET

Ein Cyf: 01592-1609070

9 Hydref 2020

Annwyl,

**Ailbenderfynu Fferm Wynt ar y Tir yn Llanbrynmair – Cais am Ragor o Wybodaeth yn sgil Tynnu Cais Fferm Wynt ar y Tir yng Ngharnedd Wen yn ôl**

Diolch i chi am eich llythyr dyddiedig 24 Medi 2020 yn gofyn am gadarnhad o'r sefyllfa o ran unrhyw waith sydd wedi'i wneud ar unrhyw lwybrau posibl i Lwythi Unigol Annormal (AILs) i safle Llanbrynmair

Gallaf gadarnhau bod gwaith manwl wedi'i wneud i ddod o hyd i fynediad addas ar gyfer AILs i safle Llanbrynmair. Mae'r gwaith hwn wedi dod i'r casgliad bod dau lwybr amgen yn gwbl ymarferol. Mae'r llwybr cyntaf yn mynd ar hyd yr is-ffordd o Lanerfyl i Dalerddig, fel y'i cynhwyswyd yn y cais gwreiddiol am Fferm Wynt Llanbrynmair. Yr ail yw'r llwybr ar hyd yr A458, fel y'i cynhwyswyd yn y cais am Fferm Wynt Carnedd Wen, fel y'i hargymhellwyd gan yr Arolygydd yn ei adroddiad. Byddai RES yn fodlon defnyddio'r naill lwybr neu'r llall i ganiatáu i AILs gael mynediad i safle Llanbrynmair.

Os byddai'n well gan yr Ysgrifennydd Gwladol i'r AILs gael mynediad oddi ar yr A458, yna fe allai'r Ysgrifennydd Gwladol roi caniatâd Adran 36 a chaniatâd cynllunio tybiedig ar gyfer Fferm Wynt Llanbrynmair, ar yr amod y byddai'r AILs yn cael mynediad oddi ar yr A458. Wedyn, byddai RES yn paratoi ac yn cyflwyno cais cynllunio ar gyfer y llwybr hwnnw, fel y'i cynhwyswyd yn flaenorol yn y cais am Fferm Wynt Carnedd Wen sydd bellach wedi'i dynnu'n ôl ac a oedd yn dderbyniol ym marn yr Arolygydd. Byddai'r cais hwn yn cynnwys asesiad o unrhyw effeithiau amgylcheddol a fyddai'n deillio o adeiladu'r llwybr hwnnw a'i ddefnyddio gan AILs.

Fel arall, fel y soniwyd yn fy llythyr dyddiedig 2 Medi 2020, byddai RES hefyd yn gyffyrddus pe bai safle Fferm Wynt Llanbrynmair yn cael caniatâd heb i lwybr penodol ar gyfer AILs gael ei nodi a'i gynnwys yn y caniatâd adran 36 a'r caniatâd cynllunio tybiedig ar gyfer Fferm Wynt Llanbrynmair, ond gydag amod yn atal mynediad i AILs i'r safle oddi ar yr is-ffordd o Lanerfyl i Dalerddig. Wedyn byddai RES yn paratoi ac yn cyflwyno cais cynllunio ar gyfer llwybr a fyddai'n caniatáu mynediad i AILs i safle Fferm Wynt Llanbrynmair. Fel gyda'r opsiwn blaenorol a ddisgrifiwyd uchod, byddai'r cais hwn yn cynnwys asesiad o effeithiau amgylcheddol tebygol y mynediad arfaethedig.

Gallaf gadarnhau bod RES wedi sicrhau opsiynau gan y rhan fwyaf o'r tirfeddianwyr y mae eu hangen i adeiladu'r llwybrau ar gyfer AILs a gynigir yng nghais Fferm Wynt Llanbrynmair a Fferm Wynt Carnedd Wen. Mae trafodaethau gyda gweddill y tirfeddianwyr yn parhau, ac mae cwblhau'r

cytundebau hyn yn amodol ar roi caniatâd adran 36. Gan hynny, mae modd i brosiect Fferm Wynt Llanbrynmair gael ei gyflawni.

At hynny, mae'n bwysig bod yr Ysgrifennydd Gwladol yn cofio y byddai adeiladu a gweithredu Fferm Wynt Llanbrynmair yn gwneud cyfraniad arwyddocaol at arallgyfeirio gwledig ac y byddai'n arwain at fanteision economaidd arwyddocaol i'r economi gwledig drwy swyddi adeiladu lleol a manteision cymunedol ehangach, fel y soniodd yr Arolygydd ym mharagraff 665 o'i adroddiad. Mae'r manteision economaidd hyn, wrth gwrs, yn ychwanegol at gynhyrchu swm sylweddol o drydan adnewyddadwy a'r manteision amgylcheddol hirdymor pwysig y mae'r Arolygydd hefyd yn sôn amdanynt ym mharagraff 665.

Hyderaf fod hyn yn ateb eich llythyr yn foddhaol a'ch bod bellach mewn sefyllfa i gwblhau'ch adroddiad a'ch argymhelliad i'r Ysgrifennydd Gwladol, ond os oes arnoch angen rhagor o fanylion, mae'n siŵr y byddwch mewn cysylltiad.

Yn gywir,

Uwch-reolwr Prosiectau Datblygu